**Eitem ar yr agenda: 4(i)**

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 19eg Medi 2005 yn Siambr Cyngor Sir Ynys Môn, Pencadlys y Cyngor, Llangefni. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb.

**Presennol:**

| Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| M Williams (Is-Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| P C Evans YH | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| S Frobisher | Cyngor Sir Ddinbych |
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| J Ovens | Cyngor Sir y Fflint |
| C Shone | Cyngor Sir y Fflint |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| G O Williams | Cyngor Gwynedd |
| N S Colbourne | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |
| W T Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); I R Miller (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); C Enness (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cynnal y Gwasanaethau); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyflwyno'r Gwasanaethau); P L Slee (Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Corfforaethol), S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); S Forrest (Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

## 1) Ymddiheuriadau

| Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| S C Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W E Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R Peacock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Jones MBE | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| D Clayton | Cyngor Sir y Fflint |
| R G Hampson | Cyngor Sir y Fflint |
| P M Shone | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

## 2) Rhybudd o Faterion Brys

Hysbysodd y Cadeirydd yr Awdurdod fod y Prif Swyddog Tân wedi gofyn am gyflwyno datganiad ynghylch trychineb a ddigwyddodd yn ystod y penwythnos.

**Trychineb Llanddulas:** Hysbysodd y Prif Swyddog Tân yr aelodau fod y Gwasanaeth wedi ei alw i dân mewn gwersyll cabanau (‘chalets’) yn Llanddulas tua 6.20am fore Sul 18fed Medi 2005. Roedd criwiau wedi cyrraedd cyn pen deng munud ond roedd y tân yn ffyrnig yn y caban erbyn hynny. Yn anffodus roedd y preswylydd, dyn yn ei ddeugeiniau, eisoes wedi marw. Roedd yr ymholiadau cynharaf wedi dangos nad oedd unrhyw amgylchiadau amheus ond roeddynt yn parhau i ymchwilio i union achos y tân.

## 3) Cyhoeddiadau

Cyhoeddodd y Cadeirydd:

i. Fod yr adroddiad a’r achos busnes ynghylch yr ystafell reoli gwasanaethau brys ar y cyd, a oedd i’w gyflwyno gerbron y cyfarfod hwn, wedi ei oedi gan fod angen gwneud rhagor o waith ar yr achos busnes. Cynghorwyd yr aelodau petai angen penderfyniad ar hyn cyn cyfarfod mis Rhagfyr y byddai cyfarfod arbennig yn cael ei drefnu i’r diben hwnnw.
ii. Roedd y Cynghorydd S C Jones yn gwella’n dda gartref erbyn hyn. Roedd hi mewn hwyliau da ac yn gobeithio bod yn bresennol yn agoriad swyddogol y Pencadlys newydd ddydd Iau, 22 Medi 2005.
iii. Byddai Mrs Edwina Hart MBE AC, Gweinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, yn cyflawni’r seremoni agoriad swyddogol yn y Pencadlys newydd yn Llanelwy ddydd Iau, 22ain Medi 2005.

iv. Llongyfarchwyd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol), Mr Peter Slee a'i wraig, ar ddathlu 35 o flynyddoedd o fywyd priodasol.

v. Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol: Byddai'r Pwyllgor Safonau yn cyfarfod ddydd Llun, 10fed Hydref 2005 am 4yp yn Neuadd y Sir, Rhuthun. Trefnwyd i'r Gweithgor Cynllun Integredig Rheoli Risg gyfarfod ddydd Mercher, 26ain Hydref 2005 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub am 10yb; byddai'r Panel Gweithredol yn cynnal ei gyfarfod yn union ar ôl hyn, tua 11:30yb. Y cyfarfod nesaf i'r Awdurdod Tân ac Achub fyddai dydd Llun, 19eg Rhagfyr 2005, yn Neuadd y Sir, Rhuthun am 10:30yb.

vi. Digwyddiadau eraill: Dydd Llun, 26ain Medi – Seminar i Aelodau Awdurdodau Tân ac Achub Cymru gyfan, yn y Pafiliwn, Llandrindod. Walesfire 2006 – hysbyswyd yr Aelodau y byddai'r Gynhadledd hon yn cael ei chynnal yng Ngogledd Cymru am y tro cyntaf erioed, rhwng 8fed a'r 10fed Mai 2006, yng Nghanolfan Gynadledda Gogledd Cymru yn Llandudno. Er mwyn sicrhau llwyddiant y digwyddiad byddai'n ofynnol cael cynrychiolaeth gref o blith aelodau'r Awdurdod. Byddai prif swyddogion a deilyddion portffolios yn yr awdurdodau cyfansoddol yn cael eu gwahodd hefyd, yn arbennig aelodau a swyddogion oedd yn ymwneud â diogelwch cymunedol a meysydd eraill lle roedd partneriaethau a chydweithio gyda'r Gwasanaeth yn cymryd lle.

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

***i. y dylid cyflwyno adroddiad i Banel Gweithredol yr Awdurdod ar 26ain Hydref 2005 ynghylch y goblygiadau ariannol, a'r dewisiadau oedd ar gael, o ran darparu llety dros nos i aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub a fyddai'n mynychu Cynhadledd 'Walesfire 2006' yn Llandudno, rhwng 8fed a'r 10fed Mai 2006, a***

***ii. bod yr aelodau'n cynghori'r Swyddog Cyswllt Aelodau am y swyddogion a'r cynghorwyr allweddol o'u hawdurdodau hwy y dylid eu cynnwys ar y rhestr i'w gwahodd i Gynhadledd "Walesfire" 2006.***

**4) Cofnodion**

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. Cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 20fed Mehefin 2005

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir o'r trafodion.***

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol er gwybodaeth:

ii. Cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 1af Gorffennaf 2005

iii. Cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 25ain Gorffennaf 2005

## 5) Materion yn codi

Cododd y materion canlynol o'r cofnodion a gyflwynwyd:

**Cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub, 20fed Mehefin 2005**
**Tudalen 5: Adroddiad y Cadeirydd –** Cynghorodd y Prif Swyddog Tân yr aelodau yr ymdriniwyd â'r pryderon a nodwyd ynghylch aelodau lleol ddim yn cael eu hysbysu am wahanol ddigwyddiadau oedd yn cael eu cynnal yn eu hardal lle roedd personél tân ac achub un ai'n cymryd rhan, neu'n bresennol. Bellach roedd yr aelodau'n cael eu hysbysu am ddigwyddiadau a gynhelid yn eu hardaloedd.

**Cyfarfod y Pwyllgor Safonau, 1af Gorffennaf 2005**
**Tudalen 2: Adolygiad o'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol, 3ydd paragraff** – Nododd y Cynghorydd W J Chorlton ei fod yn anghytuno â barn y Pwyllgor Safonau y dylai pwyllgorau safonau lleol gael y pŵer i gynnal yr ymchwiliad dechreuol i gwynion am ymddygiad aelod. Yn ei farn ef dylai pob cwyn gael ei gyfeirio at yr Ombwdsmon i ddechrau, er mwyn sicrhau ymdrin â'r achos yn ddiduedd. Cynghorodd y Clerc y Cynghorydd Chorlton fod y cyfnod ymgynghori ar yr Adolygiad yr oedd yn cyfeirio ato wedi gorffen ddiwedd Gorffennaf. Cyfeiriwyd y Cynghorydd Chorlton at gofnodion cyfarfod y Panel Gweithredol ar 25ain Gorffennaf 2005 lle roedd y Panel wedi nodi ymateb y Pwyllgor Safonau ac wedi penderfynu peidio â chyflwyno unrhyw sylwadau eraill neu i gyflwyno ei ymateb ei hun.

**Cyfarfod y Panel Gweithredol, 25ain Gorffennaf 2005**
**Tudalennau 2 i 4: Y berthynas rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru â'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru:** Holodd y Cynghorydd E C George a oedd yr Awdurdod wedi derbyn ymateb i'w sylwadau ar bapur trafodaeth Cyfarwyddwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a ystyriwyd yn y cyfarfod blaenorol. Dywedodd y Prif Swyddog Tân na dderbyniwyd unrhyw ymateb hyd yma. Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau y byddai Pwyllgor Cydlynu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cyfarfod yn mis Hydref ac y byddai'n codi'r mater yn y cyfarfod hwnnw. Awgrymodd y Clerc y gallai fod o fudd i aelodau godi'r mater hwn gyda Mr Steve Thomas, Cyfarwyddwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn Seminar Aelodau Awdurdodau Tân ac Achub Cymru gyfan ar 26ain Medi 2005 gan mai ef fyddai un o'r siaradwyr gwadd.

## 6) Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod) i roi'r diweddaraf i'r aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr oedd wedi eu mynychu, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd, ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod Tân ac Achub ar 20fed Mehefin 2005. Cyflwynodd y Cadeirydd

fanylion am y gwahanol gyfarfodydd a digwyddiadau a restrwyd yn ei adroddiad. Cynghorwyd yr aelodau y cynhaliwyd trafodaeth yng nghyfarfodydd y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Brigadau Tân Awdurdodau Lleol (NJC) am wahanol eitemau yn cynnwys ymosodiadau ar ddiffoddwyr tân a ystafelloedd rheoli rhanbarthol yn Lloegr. Roedd deddfwriaeth yn bodoli eisoes yn yr Alban a oedd yn gwneud ymosodiadau ar ddiffoddwyr tân oedd yn ymateb i alwadau brys yn drosedd. Roedd Mesur Aelod Preifat wrthi'n cael ei gyflwyno gerbron y Senedd i wneud darpariaeth tebyg yn Lloegr. Hysbysodd y Cadeirydd yr Awdurdod ei fod yn bwriadu ceisio sicrwydd gan y Gweinidog y byddai deddfwriaeth debyg yn cael ei chyflwyno yng Nghymru. Ar fater Ystafelloedd Rheoli Rhanbarthol cynghorodd y Cadeirydd fod awdurdodau yn Lloegr, yn dilyn cyflwyno ystafelloedd rheoli rhanbarthol, yn ymchwilio i gynlluniau diswyddo posibl. Ni fyddai awdurdodau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ystyried cynlluniau o'r fath.

Llongyfarchwyd Andy Williams o Orsaf Dân Wrecsam gan y Cadeirydd ar yr "Arddangosfa Gwrthdrawiad" a drefnwyd ganddo ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Cynghorwyd yr aelodau fod datblygiadau ar y gweill yn awr o ran sefydlu cystadleuaeth rhwng canghennau, yn dilyn cyfarfod rhwng y Cadeirydd, Cydlynwyr Gymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc a Mr John Cartwright o'r Gymdeithas Hyfforddi Ieuenctid. Y syniad oedd cynnal y gystadleuaeth yn ystod penwythnos mewn gwersyll neu leoliad tebyg. Byddai'n cynnwys nifer o weithgareddau amrywiol megis cymorth cyntaf, rholio pibell ddŵr, profion ar faterion diogelwch a chwisiau. Hysbysodd y Cadeirydd yr Awdurdod y cyflwynwyd cais i Lywodraeth y Cynulliad am gyllid gyda'r nod o gyflogi Cydlynydd llawn amser ar gyfer Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc. Diolchwyd i Mark Jones, Rheolwr Diogelwch Tân Cymunedol y Gwasanaeth, am gydlynu'r trefniadau ar gyfer y cyfarfod. Bwriedid cynnal cyfarfod arall yn y dyfodol agos.

Mewn ymateb i gwestiwn cynghorodd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân yr aelodau fod y Seminar Dimensiynau Newydd, a gynhaliwyd yng Ngholeg y Gwasanaeth Tân ar 6ed Medi wedi bod yn werthfawr a buddiol iawn. Roedd yr offer a'r sefyllfaoedd enghreifftiol a ddangoswyd ar y diwrnod wedi creu argraff, ac wedi tanlinellu pwysigrwydd a lefel y cyllid roedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ei gyfeirio i'r maes hwn o waith y Gwasanaeth.

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi'r wybodaeth a gynhwyswyd yn yr adroddiad.***

## 7) Adolygiad o Bensiynau

Cyn dechrau trafod yr eitem hon datganodd y Cynghorydd W J Chorlton fudd fel diffoddwr tân wedi ymddeol a oedd yn derbyn pensiwn o'r gronfa bensiwn. Cynghorwyd y Cynghorydd Chorlton gan y Clerc y byddai ei ddatganiad yn cael ei nodi ond na fyddai'n cael ei atal rhag cymryd rhan yn y drafodaeth gan

fod yr adroddiad yn ymwneud â threfniadau pensiwn i'r dyfodol ac nid â thalu'r pensiynau presennol.

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) a oedd yn rhoi'r diweddariad blynyddol i'r Aelodau ar ddarpariaeth Pensiwn yr Awdurdod. Esboniodd fod yr adroddiad yn hunanesboniadol, ond fod y sefyllfa wedi ei chymhlethu ychydig gan y ffaith fod Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) eisoes wedi cyhoeddi, at ddiben ymgynghori, gynigion ynghylch Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân newydd ar gyfer Lloegr. Byddai'r Cynllun yn dod i rym ym mis Ebrill 2006 yn Lloegr. Nid oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori o'r fath yng Nghymru eto. Cynghorwyd yr aelodau gan y Clerc fod yr oedi cyn ymgynghori ynghylch unrhyw gynigion a'r ffaith nad oedd wedi cynnal proses o gasglu data yn golygu bod y Cynulliad wedi methu'r cyfle i ddeddfu i gynllun pensiwn newydd ddod i rym yng Nghymru o Ebrill 2006. Nawr y dyddiad cynharaf ar gyfer cyflwyno cynllun newydd fyddai Ebrill 2007. Atgoffwyd yr Aelodau gan y Clerc mai'r Cynllun Pensiwn oedd y diweddaraf o restr hir o bapurau ymgynghorol yr oedd awdurdodau tân ac achub yn aros i'r Cynulliad eu cyhoeddi. Roedd yr Awdurdod wedi bod yn lobïo'n gyson ynghylch y pwynt o oedi cyn ymgynghori. Roedd yr oedi cyn ymgynghori yn golygu bod awdurdodau tân ac achub yng Nghymru yn ymddangos fel petaent yn mynd yn bellach a phellach y tu ôl i'w cymheiriaid yn Lloegr mewn nifer o feysydd allweddol. Yn ddiweddar roedd yr ODPM wedi cyhoeddi, at ddibenion ymgynghori, y newidiadau oedd yn ofynnol i'r cynllun pensiwn presennol er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a ddeuai i rym, ymhlith newidiadau deddfwriaethol eraill, drwy ddeddfiad y Ddeddf Partneriaethau Sifil 2004 ar 5 Rhagfyr 2005. Ni chafwyd unrhyw arwydd pryd roedd Llywodraeth y Cynulliad yn debygol o ymgynghori ynghylch y newidiadau oedd yn ofynnol. Awgrymodd y Clerc i'r aelodau y gallai fod o fudd codi'r mater pensiwn yn Seminar Aelodau Awdurdodau Tân ac Achub Cymru gyfan ar 26ain Medi 2005.

Yn ystod cyfarfod diweddar o'r Grŵp Cyswllt y Gwasanaethau Tân ac Achub roedd y Gweinidog wedi dynodi fod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried cyflwyno'r Cynllun Pensiwn newydd o Ebrill 2007. Cynghorodd y Clerc yr Awdurdod y gallai oedi'r cynllun am 12 mis olygu bod awdurdodau tân ac achub yng Nghymru yn wynebu anfantais ariannol o gymharu ag awdurdodau yn Lloegr. Byddai diffoddwyr tân rhan amser yng Nghymru hefyd dan anfantais gan na fyddent yn gallu manteisio ar y Cynllun Pensiwn ar yr un adeg a'u cydweithwyr yn Lloegr. Gofynnodd yr Aelodau am anfon llythyr at Weinidog y Cynulliad dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, gyda chopi i holl Aelodau'r Cynulliad yng Ngogledd Cymru a chyrff cynrychioladol y staff, yn nodi pryderon yr Awdurdod ynghylch yr oedi cyn cyflwyno'r newidiadau i'r cynllun pensiwn tebyg i'r rhai a awgrymid gan yr ODPM yn Lloegr, ac yn gofyn i Lywodraeth y Cynulliad ymgynghori ar fyrder ynghylch y newidiadau sy'n ofynnol i'r cynllun pensiwn presennol i adlewyrchu'r Ddeddf Partneriaethau Sifil 2004 a newidiadau deddfwriaethol eraill.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd W J Chorlton ynghylch a gyflwynwyd adroddiad i'r Awdurdod yn rhoi manylion am y cynllun pensiwn newydd arfaethedig, cynghorodd y Prif Swyddog Tân na chyflwynwyd unrhyw adroddiad gan fod yr holl gynigion hyd yma yn ymwneud â'r cynllun yn Lloegr. Ni chyflwynwyd unrhyw gynigion ynghylch y cynllun yng Nghymru hyd yma, er y rhagwelwyd y byddent yn adlewyrchu'r Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân newydd ar gyfer Lloegr. Atgoffodd y Cynghorydd E C George yr aelodau fod y cynigion yr oeddynt yn ymgynghori arnynt yn awr yn Lloegr wedi bod yn wybodaeth gyhoeddus ers 2003 pan gyhoeddwyd manylion am gynllun pensiwn newydd arfaethedig am y tro cyntaf. Cafwyd cais gan y Cynghorydd Chorlton i gyflwyno adroddiad i gyfarfod y Panel Gweithredol ar 26ain Hydref 2005, er gwybodaeth, yn nodi cynigion yr ODPM ar gyfer y Cynllun Pensiwn Diffoddwr Tân newydd ar gyfer Lloegr.

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

***i. na wneir unrhyw gyfraniad i'r Ddarpariaeth Pensiynau yn 2006/07;***
***ii. y taliadau i'r Ddarpariaeth Pensiynau i ailgychwyn yn 2007/08 os bydd cyllido y Cynllun Pensiwn yn aros yr un fath;***
***iii. anfon llythyr at Weinidog y Cynulliad dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, gyda chopi i holl Aelodau'r Cynulliad yng Ngogledd Cymru a chyrff cynrychioladol y staff, yn cofrestru pryderon yr Awdurdod am yr oedi cyn cyflwyno newidiadau i'r cynllun pensiwn tebyg i'r rhai a awgrymwyd gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog yn Lloegr, ac yn gofyn i Lywodraeth y Cynulliad ymgynghori ar fyrder ynghylch y newidiadau sy'n ofynnol i'r cynllun pensiwn presennol i adlewyrchu'r Ddeddf Partneriaethau Sifil 2004 ac unrhyw newidiadau deddfwriaethol eraill; a***
***iv. cyflwyno adroddiad i gyfarfod y Panel Gweithredol ar 26ain Hydref 2005 yn nodi'r manylion am gynigion Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog ar gyfer y Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân newydd ar gyfer Lloegr.***

**8) Alldro Amcanol 2005/06**

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhoi'r diweddaraf am ffigwr alldro amcanol amcangyfrifedig yr Awdurdod o ran blwyddyn ariannol 2005/06. Esboniodd fod yr adroddiad yn hunanesboniadol a'i bod yn anodd ar yr adeg hon yn y flwyddyn ariannol i ragfynegi ffigwr alldro diwedd y flwyddyn ariannol. Atgoffodd y Cynghorydd W J Chorlton yr aelodau am farn ei awdurdod am sut i ymdrin ag unrhyw danwariant ar ddiwedd y flwyddyn.

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi bod y ffigwr alldro amcangyfrifedig wedi ei seilio ar y lefelau gweithgaredd presennol ac y gallai'r sefyllfa newid, ac y dylid ystyried sut i ymdrin â'r tanwariant yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod Tân ac Achub pan fyddai'r ffigwr alldro diweddaraf yn cael ei gyflwyno.***

## 9) Rheolaeth Drysoryddol

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad Rheolaeth Drysoryddol a'r Dangosyddion Darbodus (a ddosbarthwyd yn flaenorol). Esboniodd ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod fonitro'r dangosyddion darbodus yn rheolaidd a chyflwyno adroddiad am, a chymeradwyo, unrhyw newidiadau allweddol i'r Strategaeth Rheolaeth Drysoryddol a'r Cynllun Blynyddol er mwyn cydymffurfio â gofynion Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys. Nodwyd manylion y newidiadau a oedd yn ofynnol yn yr adroddiad.

***<u>Penderfynwyd:</u> - cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus diwygiedig a'r terfynau newydd a gynigiwyd ar fenthyca cyfradd sefydlog a newidiol.***

## 10) Dirprwyo Pwerau yn ymwneud â chymeradwyo'r Datganiad ar Gyfrifon 2004/05

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r Awdurdod ddirprwyo ei gyfrifoldeb i gymeradwyo'r Datganiad ar Gyfrifon 2004/05 a derbyn yr adroddiad cysylltiedig gan Swyddfa Archwilio Cymru i'w Banel Gweithredol.

***<u>Penderfynwyd</u>: - dirprwyo cyfrifoldeb am gymeradwyo Datganiad ar Gyfrifon 2004/05 i'r Panel Gweithredol ac i'r Panel Gweithredol dderbyn yr adroddiad cysylltiedig gan Swyddfa Archwilio Cymru.***

## 11) Adolygiad o Weithrediad y System Shifftiau Newydd ar Orsafoedd Criw Dydd

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhoi diweddaraf i'r aelodau ar yr adolygiad o'r amseroedd shifft newydd a weithir ar orsafoedd criw dydd. Cytunodd yr aelodau gyda'r adroddiad fod y newid yn amseroedd y shifftiau yn ymddangos fel petai'n gweithio'n dda. O ganlyniad roedd y Gwasanaeth yn elwa o'r newid, gyda rhagor o alwadau'n cael eu derbyn yn ystod y cyfnod roedd staff yn bresennol yn yr orsaf. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch yr arbedion yn deillio o weithredu'r system newydd cynghorodd y Prif Swyddog Tân y rhagwelir y gellid goresgyn y rhagfynegiad gwreiddiol o £75k, a nodwyd yng Nghynllun Integredig Rheoli Risg yr Awdurdod. Cytunodd y Prif Swyddog Tân i gais gan y Cynghorydd E C George i gyflwyno adroddiad i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Rhagfyr ar yr arbedion a wnaed drwy weithredu'r system shifftiau newydd, ond mynegodd hefyd yr hoffai ehangu'r adroddiad i gynnwys y gwelliannau a wnaed i'r gwasanaeth a gyflenwid o ganlyniad i weithredu'r system newydd.

Ar fater nifer y galwadau ffug a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth o larymau tân awtomatig, dywedodd y Prif Swyddog Tân fod y maes penodol hwn wedi bod

yn destun sylw gan Weithgor y Cynllun Integredig Rheoli Risg ers iddo gael ei sefydlu. Roedd y swyddogion wedi dod i'r casgliad nad oedd protocol Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân (CFOA) ar sut i ymdrin â galwadau o'r fath, a oedd yn fwrn ar adnoddau prin ac arian, yn ddigon cadarn. Byddai polisi cadarnach yn cael ei gyflwyno gerbron Gweithgor y Cynllun Risg yn fuan. Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân grynodeb o'r materion a drafodwyd yn y cyfarfod gynhaliwyd gyda staff gorsafoedd criwiau dydd. Hefyd cynghorodd fod yr Uwch Swyddog Diogelwch Tân yn y broses o ysgrifennu at gyfarwyddwyr addysg/dysgu gydol oes yr awdurdodau cyfansoddol i geisio sicrwydd ganddynt y byddai addysg diogelwch tân yn derbyn amser digonol ar gwricwlwm ysgolion.

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi cynnwys yr adroddiad ac y dylid cyflwyno adroddiad i gyfarfod yr Awdurdod yn Rhagfyr 2005 yn rhoi manylion am yr arbedion a ddeilliodd o weithredu'r system shifft newydd ar orsafoedd criw dydd, ynghyd â'r gwelliannau a wnaed o ran cyflenwi'r gwasanaeth.***

Cytunodd y Cadeirydd i gais y Cynghorydd W J Chorlton i amrywio trefn yr agenda er mwyn trafod yr eitem ar 'Ddarpariaeth Yswiriant ar gyfer ymladd tanau ar neu o dan y môr" cyn yr eitem ar "Gynllun Perfformiad Gwerth Gorau 2005/06", ar y sail fod rhaid i'r Cynghorydd Chorlton adael y cyfarfod yn gynnar.

**12) Darpariaeth yswiriant ar gyfer ymladd tanau ar neu o dan y môr**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhoi manylion i'r aelodau am ddarpariaeth yswiriant yr Awdurdod yn ymwneud â gwaith y Gwasanaeth pan yn diffodd tanau ar neu o dan y môr. Esboniodd fod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno o ganlyniad i gais a wnaed yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Mehefin. Dywedodd y Cynghorydd W J Chorlton ei fod yn derbyn yr adroddiad o ran fel y mae pethau ar hyn o bryd ond dywedodd ei fod yn bryderus am yr ymadrodd "addasiadau priodol yn ddibynnol ar yr amgylchiadau". Esboniodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol), dan y Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân presennol, y byddai lleihad digolledu yn cael ei wneud am y taliadau budd-dal a dderbyniwyd o'r Cynllun. Roedd Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog wedi cyhoeddi manylion am y cynllun pensiwn newydd ar gyfer diffoddwyr tân yn Lloegr yn ddiweddar a'r newidiadau oedd yn ofynnol i'r cynllun presennol i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol. Disgwylid i Lywodraeth y Cynulliad ymgynghori yn fuan ynghylch cynllun pensiwn newydd tebyg yng Nghymru ac ar y newidiadau oedd yn ofynnol i'r cynllun presennol i adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol. Rhagwelid y byddai adfer taliadau digolledu yn cael ei gynnwys yn y broses ymgynghori yma. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n codi'r mater gyda'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol hefyd.

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi cynnwys yr adroddiad a bod y trefniadau presennol o ran darpariaeth yswiriant ar gyfer ymladd tanau morwrol yng Ngogledd Cymru yn***

***parhau, hyd nes y ceid cytundeb cenedlaethol, pryd y byddid yn adolygu'r mater.***

Gadawodd y Cynghorydd W J Chorlton y cyfarfod ar y pwynt yma.

**13) Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau 2005/06**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) a oedd, yn absenoldeb canllawiau statudol ac er mwyn cydymffurfio ag Adran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, yn cyflwyno dogfen ddrafft i'r aelodau ar gyfer ei mabwysiadu fel Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau anffurfiol yr Awdurdod ar gyfer 2005/06. Holodd y Cynghorydd M Griffith a fyddai'r ddogfen wedi ei chymeradwyo ar gael yn ddwyieithog. Cafodd ei sicrhau gan Reolwr Cynllunio Corfforaethol y Gwasanaeth fod fersiwn Gymraeg y Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau bron yn barod, a bod Polisi Iaith Gymraeg y Gwasanaeth yn caniatáu i ddogfennau drafft gael eu cyflwyno yn Saesneg yn unig. Unwaith y bo dogfen ddrafft yn cael ei chymeradwyo gan yr Awdurdod yna rhaid oedd trefnu iddi fod ar gael yn y ddwy iaith.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch pryd y byddai'r Awdurdod yn cael cyfle i drafod y Cynllun Iaith Gymraeg drafft, hysbysodd y Clerc y Cynghorydd Griffith fod Panel Gweithredol yr Awdurdod wedi cymeradwyo'r Cynllun drafft i'w gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn ei gyfarfod ar 25ain Gorffennaf 2005.

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r ddogfen ddrafft yn yr atodiad i'r adroddiad fel Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau anffurfiol yr Awdurdod ar gyfer 2005/06.***

**14) Strategaeth Rheoli Risg Corfforaethol**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn cyflwyno Strategaeth Rheolaeth Risg Corfforaethol Drafft y Gwasanaeth i'r aelodau. Tynnwyd sylw'r aelodau at gyfrifoldebau'r sefydliad ar lefel aelodau a swyddogion. Mewn ymateb i gwestiwn pam bod y datganiad polisi yn cyfeirio at dân ond nid at achub, er bod yr olaf bellach yn ddyletswydd statudol, cynghorodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon mai mater o ddehongliad yn unig oedd hyn ac y byddai achub yn cael ei gynnwys yn y diffiniad o ddyletswyddau tân.

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi cynnwys yr adroddiad a chadarnhau'r polisi.***

**15) Er Gwybodaeth**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân y rhifyn diweddaraf o'r cylchgrawn 'Er Gwybodaeth' i'r Awdurdod. Ymddiheurodd am y gwallau teipio yn y cyhoeddiad a dywedodd wrth yr aelodau eu bod eisoes wedi trafod y problemau hyn gyda'r cyhoeddwr.

***Penderfynwyd*: - derbyn y cyhoeddiad.**

**16) Materion Brys**

Gwnaed datganiad eisoes dan eitem busnes rhif 2.

Gadawodd y Cynghorydd W T Roberts y cyfarfod ar y pwynt yma.

Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau yr argymhellwyd trafod yr eitem fusnes nesaf ar yr agenda heb i'r Wasg na'r Cyhoedd fod yn bresennol.

***Penderfynwyd*: - yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 y dylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes a ganlyn gan ei bod yn debygol y datgelid gwybodaeth eithriedig iddynt, fel a ddiffinnir ym Mharagraffau 1, 8, 9 a 10 yn Rhan 1 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

**RHAN II**

**17) Adolygiad o'r Uned Diogelwch Tân Masnachol**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn hysbysu'r aelodau am ganlyniad yr adolygiad a wnaed yn ddiweddar o'r Uned Diogelwch Tân Masnachol a'r dewisiadau o ran dyfodol yr uned. Esboniodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) Paul Claydon mai dim ond yn ystod un flwyddyn ariannol yr oedd yr Uned wedi dangos gwarged gweithredol ers ei sefydlu. Yna aeth ymlaen i fanylu ar y wybodaeth yn yr adroddiad, yn cynnwys cynnydd yr uned yn erbyn ei gylch gwaith, yr ystyriaethau ychwanegol, a'r archwiliad a'r adolygiad a gynhaliwyd, cyn esbonio'n drylwyr y pedwar dewis a gyflwynwyd i'r aelodau eu hystyried.

Daeth y Cynghorydd W T Roberts yn ôl i'r cyfarfod ar y pwynt yma.

Dywedodd y Cynghorydd E C George nad oedd materion diogelwch tân yn flaenllaw o ran blaenoriaethau'r awdurdodau tân na'r Llywodraeth pan sefydlwyd yr Uned Diogelwch Tân Masnachol ym mis Ebrill 2000. Ers hynny roedd yr agenda wedi symud ymlaen ac roedd diogelwch tân bellach yn un o'r dyletswyddau sylfaenol a ddisgwylid gan wasanaeth tân ac achub modern. Cytunodd yr aelodau a:

***Penderfynwyd*: - cynnal yr Uned Diogelwch Tân Masnachol fel menter nad yw'n fusnes a bod ei hasedau, staff a'i gwasanaethau yn cael eu cynnwys fel rhan o swyddogaeth Diogelwch Tân Cymunedol y Gwasanaeth. Byddai unrhyw incwm grëwyd yn cael ei ddefnyddio i wrthbwyso ei chostau, gydag unrhyw gostau dros ben hyn yn cael eu talu o gyllideb y Gwasanaeth.**

Diolchodd y Prif Swyddog Tân i'r aelodau am eu penderfyniad ar y mater hwn.

Gorffennodd y cyfarfod am hanner dydd.

**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

**Arwyddwyd:** T Roberts **Dyddiedig:** 19 Rhagfyr, 2005